Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru: Adolygiad o Hybu Cig Cymru – Hybu Cig Cymru







Hydref 2016

# Ymateb Llywodraeth Cymru: Adolygiad o Hybu Cig Cymru

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai HCC barhau i fod yn gwmni a berchenogir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru. | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Derbynnir yr argymhelliad hwn. | Dim newid |
| 2 | Dylai'r ardoll cig coch statudol barhau yn niwydiant cig coch Cymru. | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Derbynnir yr argymhelliad hwn. | Dim newid |
| 3 | Dylid rhoi mwy o bwyslais ar hyrwyddo allforio ochr yn ochr â pharhau i hyrwyddo yn y farchnad ddomestig. | Derbyn | HCC | Mae Llywodraeth Cymru a HCC yn derbyn yr argymhelliad hwn, a mater i HCC fydd cymryd y camau priodol.<br><br>Caiff ei ystyried yn rhan o'r adolygiad a gynhelir gan Fwrdd HCC (Argymhelliad 6). | Medi 2017 |
| 4 | Dylai HCC gynnal arolwg i sefydlu i ba raddau y mae cynnyrch newydd yn cael ei ddatblygu yn y sector cig coch a pha mor llwyddiannus ydyw, a dylai roi blaenoriaeth i geisio mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. | Derbyn | HCC | Mae Llywodraeth Cymru a HCC yn derbyn yr argymhelliad hwn, a mater i HCC fydd cymryd y camau priodol.<br><br>Mae'n bwysig penderfynu pa gynhyrchion cig coch y mae cwsmeriaid am eu prynu i gynyddu'r galw. | Gwanwyn 2017 |

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG29824

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Mae'n rhaid i HCC weithio mewn partneriaeth â chontractwyr cyflenwi Cyswllt Ffermio os ydyw am gyflawni ei gylch gorchwyl trosglwyddo gwybodaeth mewn ffordd integredig a chost effeithiol. | Derbyn | Llywodraeth Cymru/HCC | Mae Llywodraeth Cymru a HCC yn derbyn yr argymhelliad hwn, a mater i HCC fydd cymryd y camau priodol.<br>Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal rhwng HCC, Llywodraeth Cymru a chontractwyr cyflenwi Cyswllt Ffermio i sicrhau integreiddio. | Gwanwyn 2017 |
| 6 | Dylai Bwrdd HCC gynnal adolygiad sylfaenol o'i benderfyniadau buddsoddi bob tair blynedd a sicrhau eu bod yn debygol o gyflawni'r effaith fwyaf yn seiliedig ar y data diweddaraf a gasglwyd ar adenillion ar fuddsoddiad. Mae hyn yn cynnwys y buddsoddiad mewn trosglwyddo gwybodaeth. | Derbyn | HCC | Mae Llywodraeth Cymru a HCC yn derbyn yr argymhelliad hwn, a mater i HCC fydd cymryd y camau priodol.<br>Bydd ymgyrch i recriwtio aelodau'r Bwrdd yn dechrau Hydref 2016, ac ar ôl eu penodi, caiff y gwaith ei ddechrau a'i gwblhau cyn diwedd 2017 er mwyn sicrhau y gellir ei roi ar waith ym mlwyddyn ariannol 2018/19. | Hydref 2017 |
| 7 | Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, ystyried cynnwys statws ymddiriedolaeth ar gyfer ardoll ffermwyr ym Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010. | Derbyn yr egwyddor | Llywodraeth Cymru | Mae Llywodraeth Cymru'n deall bod y statws hwn yn bod yn Lloegr a byddwn yn holi rhanddeiliaid y diwydiant i weld beth fyddai ei effaith yng Nghymru ac a fyddai'n briodol. | Gwanwyn 2017 |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Dylai HCC gynnal cyfarfod blynyddol a ddarlledir yn fyw dros y rhyngrwyd er mwyn caniatáu i bobl ddeall ac ymgysylltu â gwaith y sefydliad i'r graddau mwyaf posib. | Derbyn yr egwyddor | HCC | Derbynnir egwyddor yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried cost effeithiolrwydd y darllediad byw cyn ei roi ar waith. | Tachwedd 2016 |
| 9 | Dylai HCC gynyddu cydweithio cost effeithiol â byrddau ardollau eraill Prydain Fawr, y Rhaglen Cyswllt Ffermio ac Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru (FAWL) er mwyn cyflawni mwy ar ran talwyr ardollau. | Derbyn | HCC | Gweler gweithred 5. | Gwanwyn 2017 |
| 10 | Dylai Llywodraeth Cymru barhau i arwain y broses recriwtio i Fwrdd HCC gyda chymorth cynrychiolydd o HCC a chynrychiolydd annibynnol priodol. | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru'n dechrau recriwtio aelodau'r Bwrdd yn yr Hydref. | Gwanwyn 2017 |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Dylai Bwrdd HCC gymryd rhan weithredol mewn datblygu Cynllun Busnes HCC er mwyn sicrhau cyfrifoldeb amdano drwy gydol y broses. | Derbyn | HCC | Mae Llywodraeth Cymru a HCC yn derbyn yr argymhelliad hwn, a mater i HCC fydd cymryd y camau priodol.<br><br>Dylai'r Bwrdd gyfrannu'n llawn at ddatblygu cynlluniau strategol HCC. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt fynegi barn a chymeradwyo'r cynnwys. | Gwanwyn 2017 |
| 12 | Mae'n rhaid i bawb a benodir i'r Bwrdd yn y dyfodol, yn rhan o'u cylch gorchwyl, gyfrannu'n weithredol at roi gwybod i dalwyr ardollau am waith HCC a'r Bwrdd. | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Bydd angen i'r Bwrdd fod yn gwbl ymwybodol o bob agwedd ar waith HCC. Nid mynd i gyfarfodydd fydd unig rôl aelod o'r Bwrdd. Dylai talwyr yr ardoll allu eu holi a'u herio bob amser. | Gwanwyn 2017 |
| 13 | Dylai Bwrdd HCC gynnwys aelodau sydd â phrofiad proffesiynol/ cymwysterau ym maes marchnata a hyrwyddo a materion ariannol er mwyn sicrhau bod y weithrediaeth yn ddarostyngedig i graffu a herio cadarn. | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru'n drafftio disgrifiadau o rolau holl aelodau'r Bwrdd yn ystod y rownd recriwtio nesaf i sicrhau bod gan yr ymgeiswyr y sgiliau sydd eu hangen. | Gwanwyn 2017 |
| 14 | Dylai'r Bwrdd fod yn fwy cytbwys o ran nifer y dynion a menywod yn y dyfodol. | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgyrch broactif i sicrhau bod mwy o fenywod yn cael eu recriwtio i'r Bwrdd. | Gwanwyn 2017 |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 | Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r holl ddogfennau corffori presennol, a sicrhau bod dogfen fframwaith perthynas ffurfiol ar waith a bod dogfennau corffori'n adlewyrchu'r fframwaith hwn. Dylai hyn gael ei ategu gan lythyr cylch gorchwyl blynyddol. | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Caiff dogfen fframwaith ei drafftio a'i rhoi ar waith ar ôl cyhoeddi'r adolygiad hwn. Caiff y dogfennau ymgorffori eu hadolygu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion y ddogfen fframwaith.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi llythyr cylch gwaith blynyddol i HCC. Bydd yn rhestru gofynion y flwyddyn. | Hydref 2016 |
| 16 | Dylid cynnal a chofnodi rhaglen o gyfarfodydd ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a HCC. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys cydlynu gweithgareddau rhwng HCC a Llywodraeth Cymru er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion a gwariant. | Derbyn | Llywodraeth Cymru/HCC | Bydd Llywodraeth Cymru'n trefnu rhaglen ffurfiol o gyfarfodydd adolygu bob chwarter gyda HCC. | Hydref 2016 |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 17 | Dylai Cadeirydd HCC gyfarfod yn ffurfiol ag Ysgrifennydd y Cabinet unwaith y flwyddyn. | Derbyn | HCC | Mae Llywodraeth Cymru a HCC yn derbyn yr argymhelliad hwn, a mater i HCC fydd cymryd y camau priodol.<br>Mae cyfarfodydd y Cadeirydd â Llywodraeth Cymru yn cael eu trefnu ad hoc. Caiff y cyfarfodydd hyn eu ffurfioli yr un pryd â dosbarthu'r llythyr cylch gwaith. | Gwanwyn 2017 |
| 18 | Dylai gwaith HCC gael ei integreiddio'n fwy o lawer â rhaglenni gweithgarwch sefydliadau partner ar y camau cynllunio er mwyn osgoi dyblygu. | Derbyn | HCC | Gweler gweithred 5 | Gwanwyn 2017 |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 19 | Dylai HCC a Llywodraeth Cymru barhau i geisio penderfyniad cynnar ar ymarfer dosbarthu'r Ardoll Cig Coch. | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda HCC, Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i benderfynu ar yr opsiynau gorau i Gymru.<br><br>Mae symudiadau gwartheg, defaid a moch yn cael eu modelu er mwyn gallu asesu'r effeithiau. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn gallu penderfynu wedyn ar ei chamau nesaf. | |
| 20 | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried faint o gynnyrch organig sydd ei angen yn y gadwyn fwyd a'r potensial i wella hyn trwy hyrwyddo. | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr argymhelliad ymhellach wrth gynllunio gwaith at y dyfodol. | Hydref 2017 |
| 21 | Dylai Llywodraeth Cymru a HCC gydweithio i archwilio dewisiadau i gadw nod ansawdd ar gyfer Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru yn dilyn penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. | Derbyn | Llywodraeth Cymru/HCC | Fel rhan o'r trafodaethau masnachu, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried sut i gadw marc ansawdd Cig Oen ac Eidion Cymru. Bydd hyn yn ffocws i Lywodraeth Cymru gydol y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd. | Yn mynd rhagddo |